Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Golwg-y-Bwthyn**

**Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys**
**Ysbyty Tref-y-clawdd**
**Ffrydd Road**
**Tref-y-clawdd**
**LD7 1DF**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

15/02/2024

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Golwg-y-Bwthyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Awst 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yng nghartref Golwg-y-Bwthyn. Mae'r staff gofal yn gyfeillgar, yn ofalgar ac yn garedig. Maent yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod y bobl yn teimlo'n gartrefol a bod eu canlyniadau personol yn cael eu bodloni. Mae cyfleoedd i'r bobl wneud y pethau y maent yn eu mwynhau ac sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac mae'r gwaith tîm yn amlwg. Maent yn cael cyfleoedd hyfforddi, fel bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu'r gofal cywir i'r bobl. Mae'r wybodaeth yn y cynlluniau personol yn rhoi gwybod i'r staff gofal sut mae'r bobl am gael eu cefnogi, ac mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o adolygu'r rhain er mwyn sicrhau bod eu canlyniadau personol yn cael eu bodloni.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Caiff adroddiadau eu llunio sy'n dangos yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella. Mae'r tîm rheoli yn ymrwymedig i wneud yn siŵr bod y bobl yn teimlo'n hapus yn byw yng nghartref Golwg-y-Bwthyn a'u bod yn cael y cymorth cywir i gyflawni eu canlyniadau personol.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau dyddiol. Maent yn cael gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth ac maent yn cael cyfleoedd i gyfrannu eu syniadau o ran yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y byddent yn hoffi ei wella. Gwelsom y bobl yn treulio amser mewn ardaloedd cymunedol yn ogystal ag yn eu hystafelloedd gwely eu hunain. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff gofal yn parchu'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Mae'n amlwg bod gan y bobl gydberthnasau da â'r staff gofal. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwybod beth sy'n bwysig i'r unigolyn a gellir teilwra'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen yn unol â dewisiadau unigol. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd unrhyw staff gofal yn rhugl yn y Gymraeg, ond gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gwneud eu gorau glas i sgwrsio'n Gymraeg â'r bobl lle y bo'n bosibl.

Mae'r rheolwr a'r staff yn hybu iechyd a llesiant y bobl. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael yn seiliedig ar hoff bethau a dewisiadau'r bobl. Mae'r staff gofal yn gweithio'n galed i gynnwys y bobl mewn gweithgareddau cymdeithasol a'u hannog i gymryd rhan. Clywsom lawer o chwerthin sy'n amlwg yn helpu i wella llesiant y bobl. Mae perthnasau a ffrindiau yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd, sy'n helpu i gynnal cydberthnasau pwysig. Mae'r staff gofal yn rhoi sylw i'r bobl ac maent yn ymateb yn gyflym os bydd angen cymorth arnynt. Caiff meddyginiaeth ei rheoli'n dda. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol, sy'n gwneud yn siŵr bod y bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn gyflym.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff gofal yn adnabod yr arwyddion ac yn gwybod sut i fynegi pryderon os byddant yn amau bod llesiant rhywun mewn perygl. Maent yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i arwain eu hymarfer. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen ar y staff gofal i ddarparu gofal a chymorth cywir.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n ddiogel ac yn hybu eu llesiant. Mae'r cartref yn lân ac yn gyfforddus. Mae wedi ei addurno'n ddeniadol, ac mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli ag eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw a gwiriadau ar gyfer y cyfarpar er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl. Mae'r ardal awyr agored yn cael ei gwella ac mae'n cynnwys iard â gwelyau blodau uchel lle gall y bobl eistedd ac ymlacio.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl ddweud sut yr hoffent i'w hanghenion gofal a chymorth gael eu diwallu. Caiff y bobl a'u teuluoedd/cynrychiolwyr eu cynnwys mewn asesiadau cychwynnol er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion unigol pan fyddant yn symud i mewn i gartref Golwg-y-Bwthyn. Caiff cynlluniau personol eu datblygu, gan ystyried hoff bethau a dewisiadau unigol y bobl. Caiff y bobl eu cynnwys wrth adolygu'r cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fodloni eu canlyniadau personol. Mae'r darparwr wedi cydnabod bod angen mwy o gysondeb yn y ffeiliau gofal ac mae wrthi'n cyflwyno system cynllunio gofal electronig newydd i helpu gyda hyn.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Gwelsom weithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld â'r bobl yn ystod ein hymweliad. Mae'r cofnodion gofal yn dangos bod y bobl yn gallu cael gafael ar weithwyr proffesiynol, gan gynnwys meddygon, pan fydd angen. Mae gwybodaeth am anghenion iechyd y bobl ar gael i'r staff gofal yn y cofnodion gofal. Ceir ystafell benodol lle caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel. Cynhelir archwiliadau rheolaidd ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar reoli meddyginiaeth. Dangosodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw y system rheoli meddyginiaeth yn hyderus, ac mae polisi ar waith i arwain eu hymarfer.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae prosesau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae'r staff gofal i'w gweld ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac maent yn ymateb yn gyflym os bydd angen cymorth ar y bobl. Maent yn adnabod y bobl yn dda iawn ac yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt am lesiant y bobl yn brydlon. Dim ond er lles y bobl y caiff cyfyngiadau eu gosod ar eu rhyddid.

Gall y bobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r rhaglen weithgareddau yn seiliedig ar yr hyn y mae'r bobl yn hoffi ei wneud. Caiff llyfrau unigol eu datblygu gyda'r unigolyn ac maent yn cynnwys y pethau sydd o ddiddordeb i'r bobl. Ceir lluniau sy'n dangos y gweithgareddau y maent wedi cymryd rhan iddynt, a gwelsom fod y rhain yn cynnwys gwnïo, crefftau a mwynhau dathliadau fel penblwyddi. Gwelsom bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Roeddent yn amlwg yn mwynhau eu hunain. Roedd llawer o chwerthin ac roedd yn amlwg bod y bobl yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r staff gofal. Dywedodd y bobl wrthym *"I like it here, I can make my own cup of tea"* ac *"I'm very happy here, the girls are good."*

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r llety byw wedi cael ei ehangu ers ein harolygiad diwethaf er mwyn darparu ar gyfer mwy o bobl. Mae mwy o le i'r bobl gymdeithasu, cwrdd â phobl yn breifat neu dreulio amser ar eu pen eu hunain bellach. Mae mwy o le yn yr ystafell fwyta. Gwelsom y bobl yn mwynhau prydau gyda'i gilydd. Roedd y byrddau wedi'u gosod yn daclus gyda bwydlenni ar bob bwrdd. Mae murlun o'r dref leol ar y wal sy'n annog sgyrsiau rhwng y bobl. Gwelsom fod ffrwythau a diodydd oer ar gael yn hawdd a chegin fach lle gall y bobl baratoi diodydd a byrbrydau. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt yn eu hystafelloedd gwely, a gwelsom eu bod wedi'u personoli ag eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu haddurno. Mae'r arwyddion o gwmpas y cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei ehangu ac mae'n cynnig lle braf a hygyrch i'r bobl ei fwynhau. Mae'n cynnwys rhai gwelyau blodau uchel hefyd.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a thaclus. Gwelwyd y staff domestig yn glanhau pob ardal. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd. Cynhelir archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd er mwyn nodi materion a mynd i'r afael â nhw.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y darparwr systemau iechyd a diogelwch ar waith i amddiffyn y bobl. Cynhelir gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar, gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân, fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae system ar waith i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd gan y staff gofal am yr amgylchedd. Maent yn dweud yr ymatebir yn gyflym i faterion sy'n cael effaith ar lesiant y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr systemau ar waith i sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a chaiff gwelliannau eu gwneud er budd y bobl sy'n byw yng nghartref Golwg-y-Bwthyn. Gofynnir am farn y bobl drwy drafodaethau dyddiol â'r staff gofal a'r rheolwr, mewn cyfarfodydd i breswylwyr, ac mewn cyfarfodydd adolygu cynlluniau gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl a'r staff gofal yn ystod ei ymweliadau. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal a gaiff ei gwblhau bob chwe mis yn dangos yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y gwasanaeth a'r hyn y mae angen ei wella. Mae system ar waith i oruchwylio cwynion a phryderon felly os caiff unrhyw welliannau eu nodi, gellir gweithredu arnynt yn brydlon. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn hawdd mynd atynt, gan gynnwys y rheolwr. Maent yn teimlo'n hyderus y gallant siarad â nhw am unrhyw faterion a allai fod ganddynt. Dywedodd y rheolwr wrthym ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi yn y rôl. Mae'n dangos ymrwymiad i roi syniadau newydd ar waith er budd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y rheolwr yn fawr. Mae'r sylwadau yn cynnwys "*we work very well as a team*" a "*not only are the residents happy here, the staff are too*".

Mae'r bobl yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r canllaw ar y gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'r bobl pan fyddant yn symud i gartref Golwg-y-Bwthyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff gofal yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu er mwyn helpu i gefnogi'r bobl sy'n byw yng nghartref Golwg-y-Bwthyn. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Mae cofnodion yn dangos eu bod yn cael cyfarfodydd un i un rheolaidd â'r rheolwr ac arfarniad blynyddol o'u gwaith. Mae hyn yn eu galluogi i drafod cyfleoedd i ddatblygu yn eu gyrfa ac unrhyw gyfleoedd hyfforddiant y gall fod eu hangen arnynt ar gyfer eu datblygiad personol. Cynhelir cyfarfodydd tîm i rannu gwybodaeth, ond dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwr bob amser yn hawdd mynd ati. Gwelsom gyfathrebu da rhwng y rheolwr, y staff gofal a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd hyn yn helpu i greu'r awyrgylch cyfeillgar a welsom. Gwnaethom nodi rhai materion o ran recriwtio staff gofal, ond aethpwyd i'r afael â'r rhain ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr holl wiriadau gofynnol ar waith cyn i staff newydd ddechrau gweithio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 35 | Nid yw'r darparwr yn cynnal gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mor aml ag sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau. | Cyflawnwyd |
| 16 | Nid yw'r bobl, eu cynrychiolwyr na'r awdurdod lleoli (lle y bo'n berthnasol) yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu eu cynlluniau personol bob tri mis. | Cyflawnwyd |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi